

JOHN, HENRY (HARRI SION) (1664 - 1754), emynydd

Enw: Henry John
Dyddiad geni: 1664
Dyddiad marw: 1754
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: emynydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Arthur Gray-Jones

Ganwyd yn Blaenau Gwent, sir Fynwy, lle yr oedd yn un o aelodau cyntaf eglwys y Bedyddwyr. Symudodd yn ddiweddarach i Bontyp I. Cyhoeddwyd *Rhai Hymnau ... Duwiol* gan S. Farley, Bryste, yn 1747. Cyhoeddwyd *Amryw Hymnau Dymuniadol a Phrofiadol* o'i waith, gydag emynau gan eraill, gan S. Farley, Bryste, yn 1773. (O 1740 hyd 1742 argreffid ym Mhontyp I lyfrau Cymraeg gan S. Farley ar anogaeth [Miles Harry](#), gweinidog y Bedyddwyr ym Mhenygarn, Pontyp I.) Cafwyd ail argraffiad yng Nghaerfyrddin yn 1773 a phumed yn 1817; y mae mwy o dduwioldeb nag o farddoniaeth yn yr emynau. Argraffwyd ei 'Cân am Briodas' yn William Secker, *Y Fodrwy Briodas* (Trevecca, 1791). Ysgrifennodd [Benjamin Francis](#) farwnad ar ei ôl, a rhydd [Joshua Thomas](#) (*Hanes y Bedyddwyr*, 1778, 249) glod uchel i Harri Siôn am ddyfnder a diffuantrwydd ei argyhoeddiadau crefyddol. Bu farw 20 Medi 1754 yn 91 oed meddai carreg ei fedd.

Awdur

Arthur Gray-Jones

Ffynonellau

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)
gwybodaeth gan y Parch Gomer M. Roberts

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733163](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

